**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 1af Mai 2019 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 127. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ms J. Hughes, Ms J. L. McAlpine ac R. J. Turner.

## 128. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – EBRILL 2019

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 704b | Shire Leasing | 337.33 | Taliad Prydles System Ffôn Avaya Ch1 19/20 |
| 705 | BT | 332.92 | Galwadau a thaliadau rhentu |
| 706 | BT | 93.83 | Taliadau rhentu |
| 707 | HSBC | 7.90 | Taliadau Banc 17/02/19 - 16/03/18 |
| 715 | Neopost Ltd | 108.04 | Ffi cerdyn cyfradd IJ25 ar gyfer peiriant ffrancio |
| 716 | Cyngor Sir Ddinbych | 725.50 | TANC ar gyfer Swyddfeydd Ffordd Wellington - Taliad 1 o 10 |
| 718 | Cyngor Sir y Fflint (Cfronfa Bensiwn Clwyd) | 4,214.51 | Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Mawrth 2019 |
| 717 | CThEM | 2,649.55 | Didyniadau PAYE Mawrth 2019 |
| 719 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau ar gyfer Mawrth 2019 |
| 720 | Sioned Graham-Cameron | 185.15 | Ffioedd Cyfieithu |
| 721 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,156.32 | Cyflogau Staff Ebrill 2019 |
| 722 | Sage & Co | 93.00 | Ffioedd Cyflogres Ionawr - Mawrth 2019 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£17,344.05** | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**129. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 732 | Gwasg Helygain | Taflenni a phosteri ar gyfer digwyddiad Gŵyl Fai'r Maer | 273.00 |
| 733 | Cyngor Sir Ddinbych | Llogi Neuadd y Dref ar gyfer cyngerdd elusen y Maer | 125.00 |
| | | **Cyfanswm Atodlen B** | **£398.00** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

**130. POLISI CRONFEYDD WRTH GEFN**

Ymhellach i gofnod rhif 113 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19eg Rhagfyr 2018, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar gronfeydd wrth gefn y cyngor a glustnodwyd, i'w gymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar 31ain Mawrth 2019 ac y byddent yn cael eu harolygu yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20.*

**131. ADRODDIAD SICRHAD CADEIRYDD ASESU RISG**

Ymhellach i gofnod rhif 2 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Rhagfyr 2018, cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad y Cadeirydd (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dilyn ei archwiliadau yn ddiweddar yn unol â rheoliadau'r Cyngor Tref mewn perthynas â chysoni banc a thaliadau a wnaed, i roddi sicrhad ychwanegol i aelodau'r cyngor a threthdalwyr y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**132. EITEM GAN AELOD: HYFFORDDI PEILOTIAID TRAMOR YN Y FALI**

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James am gefnogaeth yr aelodau i'r Cyngor Tref ofyn i Lywodraeth Cymru wneud cyflwyniadau i'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn gofyn am gael rhoi'r gorau i hyfforddi peilotiaid tramor yng Nghymru i ymgymryd â chyrchoedd bonio yn yr Yemen ar ran Saudi Arabia.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn unol â hynny.*

## 133. EITEM GAN AELOD: 'Y RHYL DDI-BLASTIG'

Adroddodd y Cynghorydd K. R. Jones bod rhwng 500-600 o wirfoddolwyr nawr yn cymryd rhan i lanhau'r traeth yn rheolaidd, gyda hanner tunnell o wastraff wedi ei gasglu o'r traeth ac ardal y Promenâd hyd yma.

Roedd G2G, Wilkinsons a Gamlins yn gweithio mewn partneriaeth â nhw ac roedd Asda yn Mae Cinmel hefyd yn eu cefnogi. Dywedodd y Cynghorydd Jones bod Wilkinsons yn arbennig o dda o ran ailgylchu.

Roedd ar hyn o bryd 13 o bwyntiau ail-lenwi dŵr am ddim yn y Rhyl a bod ap ail-lenwi ar gael o'r wefan refill.org.uk a oedd yn cyfrannu 13c y tro i'r elusen gwrth-blastig 'City to Sea'.

Dywedodd aelod bod fframiau metel mawr ar siâp pysgod yn Sbaen a ddefnyddiwyd ar draethau fel pwyntiau casglu ar gyfer plastig, ac awgrymodd y gallai'r Rhyl gael ar un ar siâp llong danddwr y Resurgam?

***PENDERFYNWYD*** *cyfeirio pwyntiau casglu plastig at y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol i'w ystyried ymhellach.*

## 134. EITEM WYBODAETH I'R AELODAU: CWMNI YSWIRIANT AVIVA

Adroddodd Clerc y Dref bod darparwr yswiriant y Cyngor Tref, Aviva, wedi cymryd y penderfyniad na fyddai bellach yn darparu yswiriant i gynghorau tref a chymuned.

Ychwanegodd bod Aviva yn chwilio am ddarparwyr amgen ar ran y Cyngor Tref ac y byddent yn barod i derfynu'r cytyndeb tair blynedd (mae'r Cyngor Tref ar hyn o bryd ym mlwyddyn dau cyfnod tair blynedd) yn gynnar os gallai'r Cyngor Tref elwa o arbedion.

Awgrymodd Clerc y Dref bod y pwyllgor yn cyfeirio'r mater i'r Is-bwyllgor Asesu Risg yn ei gyfarfod ar 28ain Mai i ystyried y mater gydag awdurdod dirprwyedig i gymryd penderfyniad ar ran y cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *cyfeirio'r mater i'r Is-bwyllgor Asesu Risg gydag awdurdod dirprwyedig i gymryd penderfyniad.*

## 135. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 136. PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYMRU – LWFANSAU DINESIG

Ymhellach i gofnod rhif 155 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Mawrth 2019, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) o argymhellion yr Is-bwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol mewn perthynas â phenderfyniadau Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru ar

gyfer 2019/20 ac i wneud newidaidau cyfatebol i swydd-ddisgrifiadau'r Maer a'r Dirprwy Faer.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r holl argymhellion a bod Clerc y Dref yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i swydd-ddisgrifiadau'r Maer a'r Dirprwy Faer.*

**[Datganodd y Cynghorwyr Mrs E. M. Chard a Mrs D. L. King fuddiant rhagfarnus yn yr eitem uchod yn eu swyddi fel Maer a Dirprwy Faer i ddod, a gadawsant y siambr heb gymryd unrhyw ran bellach yn y trafodaethau a'r pleidleisio ar y mater]**

**137. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: ………………….**..**

Dyddiad: ………………………